Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

# Cyllid digidol ar gyfer sefydliadau addysg bellach yn 2025/26

**Dyddiad:** 26 Awst 2025

**Cyfeirnod:** Medr/2025/12

**At:** Benaethiaid sefydliadau addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol

**Ymateb erbyn:** 24 Hydref 2025

**Rhagor o wybodaeth:** Rebecca Johnson | dysgudigidol@medr.cymru

## Crynodeb


Mae'r ddogfen hon yn nodi dyraniadau cyllid cyfalaf a refeniw digidol ar gyfer sefydliadau addysg bellach ym mlwyddyn academaidd 2025/26, ac yn darparu canllawiau ynghylch gwariant cymwys ac anghymwys.

Caiff dyraniadau cyllid ar gyfer pob sefydliad eu nodi yn **Atodiad A**.


***Llinellau amser***

| Amseriad | Carreg filltir neu gam gweithredu |
|---|---|
| Erbyn 24 Hydref 2025 | Pob sefydliad i amlinellu sut y mae'n bwriadu defnyddio'r cyllid (**Atodiad B**). |
| Rhagfyr 2025 | Bydd taliad cyfalaf interim (50% o'r dyraniad) yn cael ei brosesu yn ystod mis Rhagfyr. |
| Mawrth 2026 | Bydd y 50% sy'n weddill o'r dyraniad cyfalaf a thaliad interim o £15,000 o gyllid refeniw yn cael ei brosesu yn ystod mis Mawrth. |
| Erbyn 31 Gorffennaf 2026 | Adroddiad ar wariant a hawliad terfynol. (Bydd **Atodiad C** yn cael ei ychwanegu unwaith y mae taliadau interim wedi cael eu gwneud. Bydd arweinwyr cyllid enwebedig yn cael eu hysbysu pan fo'r ffurflen hon ar gael.) |


Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg |
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi |
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

**Cyflwyniad**

1. Yn ystod blwyddyn academaidd 2025/26, bydd Medr yn coladu tystiolaeth am effaith a manteision yr 'alwad i weithredu' flaenorol ar ddysgu digidol ar gyfer addysg bellach (AB) ac yn datblygu ein sylfaen dystiolaeth ar anghenion a blaenoriaethau ar gyfer dysgu digidol. Byddwn hefyd yn gweithio gyda Jisc ar ddiweddariad canol tymor i'r fframwaith strategol Digidol 2030. Bydd y gweithgareddau hyn yn goleuo gwaith cynllunio ar gyfer dull strategol Medr o ymdrin â dysgu digidol yn y sector trydyddol yn y dyfodol.

2. Mae setliad cyllid Llywodraeth Cymru i Medr ar gyfer 2025/26 yn cynnwys cyllid cyfalaf digidol o £3 miliwn ar gyfer AB. Diben y cyllid hwn yw darparu parhad ar gyfer AB ar ôl yr alwad i weithredu; cynnal y momentwm gyda chynnydd a wnaed dros y tair blynedd ddiwethaf; a helpu i ymdrin â'r pwysau penodol o ran cyllid a godwyd gan sefydliadau AB. Bydd pob sefydliad AB hefyd yn cael dyraniad refeniw digidol o £25,000 yn 2025/26.

**Dyraniadau**

3. Goleuwyd ein dull o ddyrannu **cyllid cyfalaf** gan y fethodoleg a ddefnyddiwyd dan yr alwad i weithredu ar ddysgu digidol ar gyfer AB.

| | |
|---|---|
| **Cam 1** | Mae swm sylfaenol o £30,000 wedi cael ei gymhwyso i bob sefydliad. Mae hwn wedi'i fwriadu i sicrhau bod symiau'r cyllid cyfalaf a ddarperir i sefydliadau llai o faint digonol i gael effaith gadarnhaol. |
| **Cam 2** | Dosbarthwyd gweddill y £3 miliwn yn unol â Dyraniadau Prif Ffrwd AB ar gyfer 2025/26. Darparwyd rhagor o wybodaeth am y fethodoleg ar gyfer Dyraniadau Prif Ffrwd AB yn Medr/2025/06: Dyraniadau cyllid Medr ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26. |
| **Cam 3** | Gan bod ei hystâd ffisegol yn llai (gyda goblygiadau llai o lawer o ran seilwaith digidol o'i gymharu â sefydliadau AB eraill), mae'r dyraniad i Addysg Oedolion Cymru \| Adult Learning Wales wedi cael ei haneru ar ôl y ddau gam cyntaf. Mae'r cyllid cyfalaf a ryddhawyd o ddyraniad Addysg Oedolion Cymru wedi cael ei ddosbarthu rhwng y sefydliadau AB eraill yn unol â'r fethodoleg ar gyfer Dyraniadau Prif Ffrwd AB. |

Dyrannwyd £25,000 o **gyllid refeniw** digidol i bob sefydliad AB. Caiff y dyraniadau cyfalaf a refeniw i bob sefydliad ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26 eu nodi yn **Atodiad A**.

**Canllawiau ynghylch defnyddio cyllid cyfalaf a refeniw**

4. Darperir canllawiau ynghylch gwariant cymwys ac anghymwys yn yr adran hon. Os ydych yn ansicr a yw eich defnydd arfaethedig o gyllid yn gymwys, cysylltwch â dysgudigidol@medr.cymru i gael cyngor.

5. Mae’r cyllid a ddyrennir gan Medr ar gael gyda’r amodau cyffredinol ar gyfer talu arian a nodir yn Nhelerau ac Amodau Cyllid Medr.

***Cyllid cyfalaf***

6. Mae’r cyllid hwn wedi’i fwriadu i gynorthwyo sefydliadau AB i fynd i’r afael ag anghenion sy’n flaenoriaeth dan y categorïau canlynol:

- Amnewid dyfeisiau digidol sy’n ofynnol yng ngoleuni:
  - Nifer anarferol y dyfeisiau digidol sy’n cyrraedd diwedd eu hoes yr un pryd (yn dilyn lefelau sylweddol o gyllid cynhwysiant digidol gan Lywodraeth Cymru yn 2020 a 2021).
  - Penderfyniad Microsoft i roi’r gorau i gynhaliaeth ar gyfer system weithredu Windows 10, sy’n golygu bod angen amnewid dyfeisiau sy’n anghydnaws â Windows 11.

- Buddsoddiad hanfodol mewn offer digidol a seilwaith digidol i ategu seiberddiogelwch a gwella cydnerthedd digidol y sefydliad.

- Parhau i wella a helaethu profiadau dysgwyr o ddysgu ac addysgu, gan gynnwys mynediad at offer digidol sydd o’r un safon â’r diwydiant.

- Categorïau buddsoddi cyfalaf eraill sy’n flaenoriaeth uchel a all gael eu hadnabod yng ngwaith *State of the Nation* Jisc (sydd i fod i gael ei gwblhau cyn diwedd 2024/25).

7. **Gellir cynnwys** y canlynol fel gwariant cyfalaf cymwys:

| | |
|---|---|
| **Dyfeisiau digidol ac offer digidol** | Prynu a/neu uwchraddio dyfeisiau digidol ac offer digidol cysylltiedig i’w defnyddio gan ddysgwyr a chan staff. |
| **Seiberddiogelwch a cydnerthedd digidol** | Costau cyfalaf sy’n gysylltiedig â: sicrhau bod staff a dysgwyr yn gweithredu mewn amgylchedd digidol saff a diogel (gan gynnwys storio data’n ddiogel); gwella cyflymder, sefydlogrwydd a phrofiad o weithgareddau digidol trwy uwchraddio mynediad WiFi a chysylltiadau rhwydwaith. |
| **Profiadau dysgu ac addysgu** | Prynu a/neu uwchraddio offer digidol:<br>• ar gyfer unigolion â gofynion hygyrchedd a/neu anghenion dysgu ychwanegol<br>• i ateb gofynion arbenigol y diwydiant<br>• i wella’r profiad dysgu a hwyluso defnydd o dechnoleg ddigidol mewn mannau dysgu ac addysgu<br>• i gynhyrchu adnoddau dysgu digidol o ansawdd da<br>• i dreialu technolegau newydd a/neu fathau newydd o offer digidol i’w defnyddio fel rhan o ddysgu ac addysgu<br>• costau ‘untro’ uniongyrchol am sefydlu newidiadau sylweddol i systemau, platfformau neu dechnolegau digidol. |
| **Gwariant cyfalaf cymwys arall** | • Ffioedd sefydlog, anad-daladwy gan gyflenwr allanol lle mae’r sefydliad yn ymchwilio i ddatrysiadau hyfyw o ran offer a seilwaith digidol a/neu’n eu treialu i fwydo i mewn i gynlluniau tymor hwy |

| | |
|---|---|
| | • Datblygu, profi a gweithredu ffyrdd o ddefnyddio data'n effeithiol i ddwyn budd i ddysgwyr a chefnogi dysgu ac addysgu (e.e. sgwrsfotiaid, offer tracio cynnydd a dangosfyrddau data) |

8. **<u>Ni ellir</u>** defnyddio cyllid cyfalaf ar gyfer:

- Gwariant nad yw'n wariant cyfalaf sydd y tu hwnt i gwmpas safonau cyfrifyddu ar gyfer asedau sefydlog a pholisi asedau sefydlog eich sefydliad.

- Costau nad ydynt yn gostau cyfalaf megis costau staff, costau trwyddedu ar gyfer meddalwedd neu danysgrifiadau i gael mynediad at adnoddau digidol.

- Hyfforddiant neu ddigwyddiadau ar gyfer staff neu ddysgwyr.

***Cyllid refeniw***

9. Dyrannwyd £25,000 i bob sefydliad AB fel cyfraniad tuag at gostau mewnol (e.e. i ddarparu amser a chapasiti wedi'u neilltuo gan unigolion allweddol) a/neu i ddod ag arbenigedd a chapasiti allanol i mewn i gefnogi'r dibenion canlynol.

10. **Gellir cynnwys** y canlynol fel gwariant refeniw cymwys:

| | |
|---|---|
| **Gwerthuso, monitro ac adrodd** | Gallai hyn gynnwys:<br>• casglu, mesur a dadansoddi data meintiol ac adborth ansoddol gan ddysgwyr a staff<br>• paratoi gwybodaeth i'w lledaenu a'i rhannu'n ehangach<br>• costau sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag adroddiadau diwedd menter yr alwad i weithredu ar effaith a budd yn ystod hydref 2025 |
| **Gwreiddio dulliau strategol a chydweithredol o ymdrin â dysgu digidol** | Parhau i wreiddio dulliau strategol a chydweithredol o ymdrin â dysgu digidol. Gallai hyn gynnwys:<br>• hwyluso ymgysylltiad â dysgwyr a staff fel rhan o brosesau dylunio sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr a phrosesau penderfynu sefydliadol<br>• arloesi, archwilio a threialu technolegau ac offer newydd (gan gynnwys deallusrwydd artiffisial)<br>• integreiddio technolegau, offer a/neu ddulliau newydd yn dilyn treialu blaenorol (yn eich sefydliad, neu gan dynnu ar brofiad darparwyr dysgu eraill)<br>• rhannu gwersi a phrofiadau yn y sector trydyddol ehangach (h.y. y tu allan i'ch sefydliad)<br>• hwyluso gweithgareddau cydweithredol gyda phartneriaid allanol (e.e. darparwyr dysgu eraill, cyflogwyr, partneriaid cymunedol)<br>• amser a chapasiti gan unigolion allweddol i ymgysylltu â gweithgareddau cydweithredol a/neu ymchwil gydweithredol a gydlynir gan Jisc ar ran Medr |

11. **<u>Ni ellir</u>** defnyddio cyllid refeniw ar gyfer:

- Costau deunydd a nwyddau hyrwyddo; a/neu wobrwyon i unigolion am gyfranogi mewn gweithgareddau neu am ddarparu adborth

- Costau teithio a chynhaliaeth staff

- Costau y tu allan i'r cyfnod cyllido hwn (h.y. ar ôl 31 Gorffennaf 2026)
*Rhaid i'ch sefydliad beidio â bod ag unrhyw ddisgwyliad y bydd Medr yn darparu cyllid pellach mewn blynyddoedd yn y dyfodol a rhaid i unrhyw gostau a gefnogir yn ystod y cyfnod hwn beidio â chreu dibyniaeth ar gyllid yn y dyfodol (er enghraifft; ar gyfer cytundebau trwyddedau parhaus).*
*Eich sefydliad sy'n gyfrifol am sicrhau y bydd unrhyw gostau parhaus neu gylchol yn gynaliadwy yn y dyfodol.*

- Hyfforddiant cyffredinol a dysgu proffesiynol ar gyfer staff (h.y. costau i staff fynychu hyfforddiant neu gael ardystiadau)
*Mae gan sefydliadau AB eisoes fynediad at Gyllid Dysgu Proffesiynol gan Medr, sef ein prif fodd i gefnogi gweithgareddau dysgu proffesiynol yn y sector.*

## Derbyn y cyllid

12. Mae'n ofynnol i bob sefydliad gwblhau a dychwelyd copi wedi'i lofnodi o'r ffurflen yn **Atodiad B** er mwyn:

    - Enwebu unigolyn priodol yn eich sefydliad fel y cyswllt arweiniol mewn perthynas â'r cyllid hwn

    - Amlinellu'n fras beth yw eich bwriadau ar gyfer defnyddio'r cyllid hwn

    Dylid dychwelyd ffurflenni i dysgudigidol@medr.cymru erbyn 24 Hydref 2025. Mae gofyn dychwelyd y ffurflen fel hyn cyn y bydd taliadiau yn cael ei brosesu gan Medr.

13. Hysbyswch Medr ar y cyfle cynharaf os ydych yn rhagweld na fyddwch yn gallu gwario eich dyraniad yn llawn. Os rhyddheir cyllid gan sefydliadau unigol, bydd Medr yn ystyried a yw'n ddichonadwy ailddyrannu'r cyllid hwn.

## Monitro a thalu'r cyllid

14. Yn amodol ar ddychwelyd **Atodiad B**, bydd taliadiau yn cael ei amserlennu ar gyfer:

| Amseriad | Cyllid cyfalaf | Cyllid refeniw |
|---|---|---|
| Rhagfyr 2025 | 50% o ddyraniad cyllid cyfalaf eich sefydliad (interim) | - |
| Mawrth 2026 | 50% o ddyraniad cyllid cyfalaf eich sefydliad (interim) | £15,000 (interim) |
| Awst 2026 | - | £10,000 (terfynol) |

15. Bydd hi'n ofynnol i chi ddarparu gwybodaeth am wariant erbyn 31 Gorffennaf 2026 i ryddhau'r taliad terfynol. Dim ond yn erbyn gwariant gwirioneddol a gafwyd erbyn 31 Gorffennaf 2026 y dylech hawlio. Bydd swm y taliad terfynol refeniw hwn yn cael ei

addasu yn unol â’r gwariant gwirioneddol a gafwyd, hyd at gyfanswm gwerth dyraniad refeniw eich sefydliad.

16. Unwaith y bydd taliadau interim wedi cael eu gwneud, bydd y ffurflen i’w defnyddio wrth wneud hawliad terfynol eich sefydliad a darparu gwybodaeth am wariant ar ddiwedd y flwyddyn yn cael ei hychwanegu fel **Atodiad C**. Bydd arweinwyr cyllid enwebedig yn cael eu hysbysu pan fydd y ffurflen hon ar gael.

17. Os bydd eich gwybodaeth am wariant yn cadarnhau bod cyllid heb ei wario, bydd swyddogion Medr yn cysylltu â Chyfarwyddwr Cyllid eich sefydliad i adhawlio'r swm hwn.

### Rhagor o wybodaeth

18. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn at Rebecca Johnson (dysgudigidol@medr.cymru).

## Cyllid Digidol ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach yn 2025/26

| Sefydliad Addysg Bellach | Dyraniad cyfalaf digidol 2025/26 | Dyraniad refeniw digidol 2025/26 |
|---|---:|---:|
| Addysg Oedolion Cymru \| Adult Learning Wales | £40,000 | £25,000 |
| Coleg Penybont | £162,000 | £25,000 |
| Coleg Caerdydd a’r Fro | £352,000 | £25,000 |
| Coleg Cambria | £352,000 | £25,000 |
| Coleg Gwent | £400,000 | £25,000 |
| Coleg Sir Gâr | £210,000 | £25,000 |
| Coleg y Cymoedd | £305,000 | £25,000 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | £255,000 | £25,000 |
| Grŵp Llandrillo Menai | £344,000 | £25,000 |
| Grŵp NPTC Group | £241,000 | £25,000 |
| Y Coleg Merthyr Tudful | £114,000 | £25,000 |
| Coleg Sir Benfro | £135,000 | £25,000 |
| Coleg Catholig Dewi Sant | £90,000 | £25,000 |
| **Cyfanswm** | **£3,000,000** | **£325,000** |

**Medr/2025/12: Atodiad B**

## Cyllid Digidol ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach yn 2025/26

Rhaid dychwelyd ffurflenni wedi'u cwblhau i dysgudigidol@medr.cymru **erbyn 24 Hydref 2025**.

### Adran 1: Derbyn y cyllid

| **Manylion derbynnydd y cyllid:** | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | |
| **Cyswllt arweiniol enwebedig ar gyfer y cyllid hwn:** | |
| **Cyfeiriad e-bost:** | |
| **Cyfalaf** | **Refeniw** |
| **£** | **£** |
| *Ychwanegwch y symiau perthnasol a ddyrannwyd i'ch sefydliad; o Atodiad A* | |

### Adran 2: Sut y bwriedir defnyddio'r cyllid

Gan gyfeirio at ein canllawiau ynghylch gwariant cymwys ac anghymwys, dynodwch sut yr ydych yn bwriadu defnyddio'r cyllid hwn.

Ar yr adeg hon, gallwch ddynodi amcangyfrif o swm y cyllid neu amcangyfrif o ganran y cyllid yn erbyn pob categori. Gofynnir am fanylion gwariant wedi'i eitemeiddio ar ddiwedd cyfnod y grant, fel rhan o hawliad terfynol eich sefydliad.

Os na ddisgwylir unrhyw wariant yn erbyn categori, rhowch 'Amh.' ar ei bwys.

| **2.1 Cyllid cyfalaf** | | |
|---|---|---|
| **Categori gwariant:** | **Math o wariant a/neu bryniadau allweddol bwriadedig:** | **Amcangyfrif o swm neu ganran y cyllid cyfalaf** |
| **Dyfeisiau digidol ac offer digidol** | | |
| **Seiberddiogelwch a chydnerthedd digidol** | | |
| **Profiadau dysgu ac addysgu** | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Gwariant cyfalaf cymwys arall (rhowch fanylion)** | | |

| **2.2 Cyllid refeniw** | | |
|---|---|---|
| **Categori gwariant:** | **Math o wariant bwriadedig:** | **Amcangyfrif o swm neu ganran y cyllid refeniw:** |
| **Gwerthuso, monitro ac adrodd** | | |
| **Gwreiddio dulliau strategol a chydweithredol o ymdrin â dysgu digidol** | | |

Os nad ydych yn gallu defnyddio eich dyraniad yn llawn am unrhyw reswm, hysbyswch Medr cyn gynted â phosibl (trwy: dysgudigidol@medr.cymru).

## Cyllid Digidol ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach yn 2025/26

Bydd yr atodiad hwn yn cael ei ychwanegu unwaith y bydd taliadau interim wedi cael eu gwneud.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government